Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dŷ Teresa

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Thŷ Teresa

Mae Tŷ Teresa yn ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli mewn lleoliad gwledig ar arfordir Gogledd Cymru.  Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi ar gyfer plant rhwng 11 ac 18 oed.  Caiff ei gweinyddu gan Care4Children, sef asiantaeth gwasanaethau plant arbenigol sydd â deg ysgol arbennig annibynnol ledled Cymru a Lloegr.

Mae disgyblion sy'n mynychu Tŷ Teresa i gyd yn breswylwyr yn y cartref cysylltiedig i blant sy'n rhannu'r safle.

Mae'r athro arweiniol wedi bod yn ei swydd ers sefydlu'r ysgol yn 2015.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Dros gyfnod, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu ac yn datblygu hyder yn eu gallu. Mae’r hyder hwn yn eu helpu i ymdrechu am ddeilliannau gwell yn safonau eu gwaith. Yn ystod gwersi, mae bron pob un o’r disgyblion yn awyddus i rannu eu gwybodaeth ac yn esbonio eu syniadau mewn ffordd sicr i helpu ei gilydd i gyflawni.

Mae ansawdd uchel i ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn eithriadol o dda ac yn darparu cymorth gwerthfawr sy’n hynod sensitif i’w hanghenion. Mae’r dull hwn yn helpu disgyblion i ymgysylltu’n gadarnhaol â’u dysgu, fel y dangosir gan eu presenoldeb da.

Mae ymagwedd gyfannol yr ysgol tuag at ddatblygiad personol unigol disgyblion yn gryfder, ac yn galluogi disgyblion i gaffael medrau bywyd pwysig. Mae staff addysg, therapiwtig a gofal yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio, adolygu a monitro cynnydd pob disgybl ar raglen les yr ysgol. Hefyd, maent yn defnyddio’r cyfarfodydd hyn i benderfynu pa gyd-destun sydd fwyaf priodol ar gyfer archwilio testunau neu faterion penodol sy’n berthnasol i’r rhaglen les.

Mae gan staff synnwyr cryf o ddiben ac maent yn gweithio gyda’i gilydd yn eithriadol o dda i hyrwyddo addysg a lles disgyblion, ac annog dyheadau uchel. Maent yn hyblyg ac yn addasu’n gyflym i wneud y mwyaf o gyfleoedd dysgu wrth iddynt godi, yn y tymor byr a’r tymor canolig, ar gyfer eu disgyblion.

### *Meysydd i’w datblygu*

Mae’r ysgol yn casglu llawer o dystiolaeth uniongyrchol am gynnydd disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw’n gwneud y defnydd gorau o’r wybodaeth hon mewn prosesau hunanarfarnu.

Mae diffyg eglurder yn rolau a chyfrifoldebau arweinwyr.

**Argymhellion**

**Dylai’r ysgol:**

**A1. Wella’r defnydd o dystiolaeth uniongyrchol mewn hunanarfarnu**

**A2. Adolygu rolau a chyfrifoldebau arweinwyr i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion yr ysgol yn llawn**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cynyddu ystod y cyrsiau a'r cymwysterau academaidd a galwedigaethol a gynigir i ddisgyblion, ac sy'n berthnasol i'r cam nesaf yn eu dysgu**

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r ysgol wedi cynyddu ystod y cyrsiau a'r cymwysterau academaidd a galwedigaethol i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion ymhellach. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi ymgysylltu ag athro mathemateg i roi cyfle i ddisgyblion weithio tuag at y cymhwyster TGAU yn y pwnc hwn.

Hefyd, mae'r ysgol wedi cynyddu'r dewisiadau ar gyfer cyrsiau yn y coleg addysg bellach lleol. Mae'r cyrsiau hyn yn galluogi disgyblion i ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol mewn meysydd fel arlwyo, iechyd a gofal cymdeithasol, a gwallt a harddwch. Gwneir defnydd buddiol hefyd o ddarpariaeth medrau i alluogi disgyblion i ennill cymwysterau lefel 1 a lefel 2.

Mae'r cymwysterau cynyddol a ddilynir gan ddisgyblion yn eu galluogi i gynllunio'n briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu, sy'n cynnwys gwneud cais am gyrsiau mewn addysg bellach neu brentisiaethau.

**Argymhelliad 2: Rhoi digon o amser i ddisgyblion fyfyrio pan ofynnir cwestiynau iddynt neu pan roddir tasgau iddynt eu gwneud**

Mae staff addysgu wedi cymryd camau addas i sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser i fyfyrio pan ofynnir cwestiynau iddynt neu pan roddir tasgau iddynt eu gwneud. Er enghraifft, erbyn hyn, mae staff yn annog disgyblion i rannu eu gwybodaeth a'u syniadau yn fwy yn hytrach na'u bod yn rhoi atebion yn rhy gyflym. Hefyd, mae staff yn annog disgyblion i ymchwilio i atebion o ystod o ffynonellau gan gynnwys defnydd gwell o eiriaduron ac arddangosfeydd ac adnoddau ystafell ddosbarth.

Mae'r gwelliannau hyn yn natur ac ansawdd atebion staff yn helpu disgyblion i reoli eu dysgu eu hunain yn well.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn nodi'n glir gryfderau a meysydd i'w datblygu ac yn llywio cynllunio**

Mae'r ysgol wedi gwella ei phrosesau hunanarfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu priodol. Fodd bynnag, er bod adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn myfyrio'n onest ar y cyfan ar arfer sy'n dal ethos a chymeriad yr ysgol, nid yw bob amser yn gwneud y defnydd gorau o dystiolaeth uniongyrchol i lywio barnau.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn adlewyrchu'r canfyddiadau o'r adroddiad hunanarfarnu yn dda ar y cyfan. Mae'r cynllun yn cynnwys amcanion clir a thargedau mesuradwy y mae'r ysgol yn eu defnyddio'n effeithiol i lywio cynllunio.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/01/2019